



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Partneriaeth
Cydwasaethau
Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr
Shared Services
Partnership
Student Awards Services

Canllawiau ar gyfer Cais am Fwrsariaeth GIG Cymru

**Canllaw cam wrth gam ar sut i wneud cais
am y Fwrsariaeth a'i lwfansau ychwanegol.**

Adrannau:

1. Creu cyfrif
2. Tystiolaeth
3. Gwybodaeth am y Cwrs
4. Gwybodaeth am Breswylfa
5. Gwybodaeth Bersonol
6. Lwfans Dibynyddion
7. Lwfans Gofal Plant
8. Gwybodaeth Ariannol
9. Manylion Banc
10. Cyswllt Eilaidd



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Partneriaeth
Cydwasaethau
Gwasanaethau Dyfarniadau
Shared Services
Partnership
Student Awards Services

Sut i wneud cais am Fwrsariaeth GIG Cymru

O fis Ebrill 2023, cyflwynodd GIG Cymru system gyfrifiadurol newydd ar gyfer ceisiadau am Fwrsariaethau. Dewch o hyd i'r ddolen i wneud cais isod.

[Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr - Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru](#)

O 2024 ymlaen, gall Myfyrwyr (Newydd a Pharhaus) hefyd hawlio benthyciad cynhaliaeth llawn gan Gyllid Myfyrwyr Cymru.

1. Creu cyfrif

Creu Cyfrif

Sut i greu cyfrif gyda NHSStudents.wales

Gall myfyrwyr gael mynediad i'r wefan drwy'r ddolen [Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr - Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru](#)

Os mai dyma'ch tro cyntaf ar y wefan, gallwch greu cyfrif drwy ddewis y ddolen 'Cofrestru Nawr' o dan y botwm melyn 'Mewngofnodi'.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Partneriaeth
Cydwasaethau
Shared Services
Partnership

Login

Email Address



Email Address

Password



Password



Login

Don't have an account? [Register Now](#)

Byddwch yn cael eich arwain at restr o gwestiynau y bydd gofyn i chi eu hateb i gofrestru'ch cyfrif.

Pan fyddwch wedi gorffen, cliciwch ar 'Cofrestru'.

Yna byddwn yn anfon e-bost atoch i ddilysu eich cyfeiriad e-bost. Gwiriwch eich mewnlwch a'ch ffolder sothach. Bydd yr e-bost dilysu yn cynnwys botwm o'r enw 'Gwirio Fy E-bost' - cliciwch ar y botwm hwn a chewch eich ailgyfeirio i [NHSStudents.wales](https://www.nhs.uk/students) lle dylech weld y neges ganlynol:



Account Verified

Welcome Thank you for verifying your account

Nawr gallwch ddewis y ddolen mewngofnodi i fewngofnodi i'r system gan ddefnyddio'r e-bost a'r cyfrinair a ddewisoch yn flaenorol.

DS: Mae'r ddolen hon yn dod i ben ar ôl 24 awr a bydd clicio ar hen ddolen yn arwain at neges gwall - **Er mwyn derbyn un arall:** nodwch eich cyfeiriad e-bost a'ch cyfrinair ar y sgrin mewngofnodi arferol www.nhsstudents.wales fel petaech yn mewngofnodi a chewch ddolen newydd drwy e-bost. Neu, os na allwch gofio'ch cyfrinair, gallwch ddefnyddio'r ddolen 'Wedi anghofio cyfrinair'. Bydd hyn yn anfon dolen i newid y cyfrinair ac E-bost Dilysu (os nad ydych chi eisoes wedi'ch dilysu)

Os na fyddwch yn derbyn yr e-bost, neu os nad ydych wedi clicio ar y ddolen yn yr e-bost cyn ceisio mewngofnodi, bydd yn cael ei hail-anfon atoch bob tro y byddwch yn ceisio mewngofnodi wrth ddefnyddio'r manylion o'r adeg y gwnaethoch gwblhau'r sgrin gofrestru. Rydym yn argymhell gwirio'r ffolder 'Sothach' ac ychwanegu'r e-bost at y rhestr anfonwyr diogel.

2. Tystiolaeth

Bydd angen llwytho tystiolaeth amrywiol wrth i chi fynd trwy bob adran. Ni fyddwch yn gallu bwrw ymlaen heb ei llwytho. Bydd y mathau o dystiolaeth sydd eu hangen **yn dibynnu ar yr hyn y byddwch chi'n gwneud cais amdano**. Gallai'r dystiolaeth gynnwys:

Tystysgrif Geni

Pasbort

Trwydded Yrru

Y Dreth Gyngor

Credyd Cynhwysol/Credyd Treth

Tystysgrif geni fersiwn hir Plentyn/Plant

Budd-dal Plant

Tystiolaeth o'ch incwm

P2/P11/D os nad yw'r cod treth yn safonol

Ffurflen Dreth Hunanasesiad – os ydych chi'n Hunangyflogedig neu'n Gyfarwyddwr Cwmni

Llythyr y Swyddfa Gartref a Thrwydded Breswyllo/Statws Mewnfudo

Nodwch:

Rhaid ateb unrhyw beth sydd wedi'i farcio â * cyn y gallwch fwrw ymlaen.

3. Gwybodaeth am y Cwrs

Mae angen i chi ddewis yr opsiynau perthnasol:

Prifysgol

Cwrs

Dyddiad y Garfan

Blwyddyn y Cwrs

Ydych chi'n dechrau eich blwyddyn gyntaf o raglen APEL a ariennir gan y GIG?

Os nad yw eich cwrs a'ch prifysgol yn ymddangos ar ein system newydd, byddwch yn amyneddgar gan y bydd y rhain yn cael eu hychwanegu'n fuan er mwyn i chi wneud cais. Os ydych chi'n fyfyrwr newydd ac yn ail-ymgeisio ar gyfer myfyrwyr sy'n parhau, neu Geisiadau ar gyfer y cwrs neu'r flwyddyn honno nad yw wedi agor eto.

Ar gyfer myfyrwyr Meddygol a Deintyddol:

Dim ond blynyddoedd 4, 5 a/neu 6 y bydd Graddau Israddedig Meddygol a Deintyddol yn eu hariannu (Rydym yn ariannu o'ch 5ed flwyddyn astudio ymlaen gan gynnwys unrhyw flynyddoedd wedi'u rhyngosod)

Dim ond blynyddoedd 2, 3 a 4 fydd Graddau Mynediad i Ôl-raddedigion Meddygol a Deintyddol yn eu hariannu (mae Blwyddyn 1 wedi'i hunan-ariannu)

Os ydych chi'n fyfyrwr sy'n rhyngosod, dewiswch y Brifysgol rydych chi'n rhyngosod ynddi a'r flwyddyn academaidd gywir. Bydd angen cadarnhad o enw'r cwrs, blwyddyn rhyngosod, dyddiadau'r tymor a nifer wythnosau'r cwrs ar lythyr pennawd gan y Brifysgol.

Os ydych chi'n gwneud cais am eich bwrsariaeth ar gyfer blwyddyn rydych chi'n rhyngosod ynddi, rhaid i chi ddewis teitl y cwrs sy'n cynnwys 'Rhyngosod'.

Os ydych chi'n astudio mewn Prifysgol wahanol i'ch prif un, dewiswch y Brifysgol lle rydych chi'n astudio ar gyfer y flwyddyn benodol honno. Yna pan fyddwch chi'n dychwelyd i'ch prif Brifysgol ar gyfer eich blwyddyn olaf, dewiswch eich prif Brifysgol wreiddiol ar gyfer eich blwyddyn olaf fel myfyrwr i gwblhau'r broses.

Os nad yw eich cwrs a'ch prifysgol yn ymddangos ar ein system newydd, byddwch yn amyneddgar gan y bydd y rhain yn cael eu hychwanegu'n fuan er mwyn i chi wneud cais os ydych chi'n fyfyrwr newydd ac ail-ymgeisio ar gyfer myfyrwyr sy'n parhau, neu nad yw ceisiadau ar gyfer y cwrs neu'r flwyddyn honno wedi agor eto.

4. Gwybodaeth am Breswylfa

Ydych chi'n bwriadu byw yng Nghartref eich Rhieni yn ystod y tymor? Ydw neu Nac ydw
Cenedligrwydd

Ydych chi wedi bod yn byw fel rheol yn y Deyrnas Unedig neu Iwerddon, Ynysoedd y Sianel neu
Ynys Manaw drwy gydol y tair blynedd cyn y dyddiad penodedig (diwrnod cyntaf y flwyddyn
academaidd gyntaf)?

Ydw neu Nac ydw

A fyddwch chi fel arfer yn byw yn y Deyrnas Unedig neu Iwerddon (ac eithrio Ynysoedd y Sianel,
Ynys Manaw) ar y dyddiad penodedig (diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf)?

Ydw neu Nac ydw

Dyddiad cyrraedd y Deyrnas Unedig gyntaf

Rheswm dros ddod i'r Deyrnas Unedig

A yw eich statws yn y Deyrnas Unedig

Beth yw eich statws mewnfudo? Noder, os yw eich statws mewnfudo yn "Ceisiwr Lloches", "Fisa
Myfyriwr", neu "Wedi'ch caniatáu am gyfnod cyfyngedig", yna ni fyddwch yn gymwys i gael bwrsariaeth
y GIG na ffioedd dysgu.

Dyddiad Dod i Ben y Fisa

Tystiolaeth y mae'n ofynnol ei huwchlwytho yn yr adran hon fel y nodir isod:

Bil y dreth gyngor neu gyfleustodau (gydag enw) - dim ond os bydd newidiadau yn ystod y
flwyddyn

- Y Dreth Gyngor
- Bil cyfleustodau

Tystysgrif Geni

Dogfen adnabod ffotograffig (Dewiswch pa un yr hoffech ei huwchlwytho)

- Pasbort
- Trwydded Yrru

- Llythyr gan y Swyddfa Gartref
- Fisa

5. Gwybodaeth Bersonol

Dewiswch eich Statws Priodasol

A yw'ch dau riant wedi marw?

Ydw neu Nac ydw

Ydych chi wedi ymddieithrio oddi wrth eich rhieni?

Ydw neu Nac ydw

Ydych chi wedi cynnal eich hun o'ch enillion eich hun am gyfanswm o 36 mis cyn dechrau'r flwyddyn academaidd gyntaf? Noder bod rhaid eithrio cyfnod(au) o addysg amser llawn o hyn?

Os ydych chi wedi cynnal eich hun, byddwch chi'n cael eich ystyried yn fyfyrwr annibynnol.

Os nad ydych chi wedi cynnal eich hun, byddwch yn cael eich ystyried yn Fyfyriwr Dibynnol ac yn cael eich asesu ar incwm eich rhieni.

Ydych chi'n cyd-fyw?

Ydw neu Nac ydw

Ydych chi'n gofalu am Blentyn neu Blant dan 19 Oed a fydd yn gwbl neu'n bennaf ddibynnol arnoch chi'n ariannol yn ystod eich hyfforddiant?

Ydw neu Nac ydw

Os oes gennych chi ofal am blentyn neu blant, byddwch chi'n cael eich ystyried yn Annibynnol.

Meini prawf ar gyfer cael eich ystyried yn Annibynnol:

Mae ein rheoliadau yn nodi mai'r meini prawf i gael eich ystyried yn Fyfyriwr yw: -

- Rydych yn briod, mewn partneriaeth sifil, wedi gwahanu, wedi ysgaru neu'n weddw.
- Mae gennych ofal am blentyn.
- Nid oes gennych unrhyw rieni byw.
- Rydych wedi cynnal eich hun o'ch enillion eich hun am gyfanswm cyfanredol o 36 mis cyn dechrau'r flwyddyn academaidd gyntaf. **Sylwch fod yn rhaid i hyn eithrio unrhyw gyfnodau o addysg amser llawn.**
- Rydych chi wedi ymddieithrio'n anghymodlon oddi wrth eich rhieni. Ystyrir bod myfyriwr wedi ymddieithrio'n anghymodlon oddi wrth ei riant(rhieni) os nad yw wedi cyfathrebu â'r naill na'r llall ohonyn nhw am gyfnod o 12 mis o leiaf. **Mae'r baich ar y myfyriwr i ddarparu tystiolaeth gadarn a dibynadwy yn cadarnhau'r ymddieithriad a'r rhesymau drosto. Wrth edrych ar ymddieithrio nid yw'n ddigon nad yw myfyriwr yn cyd-dynnu â'i riant/rhieni neu ei fod yn bosibl ei fod wedi**

cael rhyw fath o ddadl neu anghytundeb yn ddiweddar. Hefyd, nid yw'r ffaith y gall myfyriwr ddewis byw ar wahân i'w riant/rhieni ynddo'i hun yn ddigon o dystiolaeth o ymddieithrio. Ymhellach, ni ellir ystyried ymddieithrio oherwydd bod rhiant yn gwrthod cydweithredu yn unig wrth asesu grant y myfyriwr, e.e. trwy wrthod llenwi'r ffurflenni cais, neu oherwydd nad yw'r rhiant yn rhoi cymorth ariannol.

Rydych yn aelod o urdd grefyddol ac yn byw yn nhŷ'r urdd

Sylwer: Yn seiliedig ar yr opsiynau rydych chi wedi'u dewis, rydych chi'n cael eich dosbarthu fel Dibynnydd neu Annibynnol

Teitl *

Enw Cyntaf *

Enw(au) canol

Cyfenw/Enw teulu *

Enw Blaenorol / (Enw Cyn Priodi)

Cyfeiriad E-bost

Cyfeiriad e-bost y Brifysgol

Gwlad

Rhif ffôn llinell dir:

Rhif ffôn symudol *

Rhif Yswiriant Gwladol

Tarddiad Ethnig

Crefydd/Cred

Ydych chi'n ystyried bod gennych anabledd?

Ydw neu Nac ydw

6. Lwfans Dibynnyddion

Oedolion sy'n Ddibynnol

Oes gennych chi briod/partner sifil/partner a fydd yn gwbl neu'n bennaf ddibynnol yn ariannol arnoch chi yn ystod eich hyfforddiant?

Oes neu Nac oes – bydd angen i chi ateb OES i'r cwestiwn hwn os ydych chi am hawlio dros eich plant

Ydych chi am hawlio lwfans dibynnydd ar gyfer eich priod/partner sifil/partner?

Ydw neu Nac ydw – bydd angen i chi ateb YDW i'r cwestiwn hwn os ydych chi am hawlio dros eich plant

Enw Cyntaf (Oedolyn Dibynnol)

Cyfenw (Oedolyn Dibynnol)

Dyddiad Geni (Oedolyn Dibynnol)

Perthynas â chi (Oedolyn Dibynnol)

Cenedligrwydd

A fydd eich priod, partner sifil neu bartner yn byw gyda chi yn ystod y tymor?

Ydw neu Nac ydw

A fydd eich priod, partner sifil neu bartner yn ymgymryd â chwrs mewn addysg bellach neu uwch yn y flwyddyn academaidd nesaf?

Ydw neu Nac ydw

Ticiwch y blychau sy'n berthnasol i'r person hwn:

- Cyflogedig
- Hunan-gyflogedig
- Cyfarwyddwr Cwmni
- Di-waith
- Wedi ymddeol
- Myfyriwr llawnamser (Cyllid yn seiliedig ar incwm)
- Myfyriwr llawnamser (Cyllid heb fod yn seiliedig ar incwm)
- Budd-dal Analluogrwydd
- Cymhorthdal Incwm
- Y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
- Arall

Manylion Incwm / Treuliau

Plant Dibynnol

Ydych chi am hawlio lwfans dibynydd ar gyfer eich plentyn/plant?

Ydw neu Nac ydw

Nifer y plant sy'n ddibynnol yn ariannol

Ydych chi'n rhiant sengl?

Ydw neu Nac ydw

Oes gennych chi Gyfrifoldebau Rhianta a Rennir?

Ydw neu Nac ydw

Tystysgrif geni, pasbort neu drwydded yrru priod/partner

- Tystysgrif geni priod/partner
- Pasbort priod/partner
- Trwydded Yrru priod/partner

P60au, slipiau cyflog terfynol mis Mawrth, dogfennau hanes gwaith

- SP P60
- Slipiau Cyflog terfynol mis Mawrth
- Dogfennau Hanes Gwaith

Datganiad Blynyddol Morgais

Bydd cwestiynau gwahanol yn ymddangos yn seiliedig ar eich atebion. Bydd y cynnwys ar y dudalen hon yn dylanwadu ar dabiau eraill - e.e. bydd nodi nifer y plant sy'n ddibynnol yn ariannol yn ychwanegu/tynnu adrannau o dan ofal plant.

9. Manylion Banc

Enw'r Banc neu'r Gymdeithas Adeiladu

Cyfeiriad y Banc neu'r Gymdeithas Adeiladu

Enw(au) Deiliad(ion) y Cyfrif

Cod didoli

Rhif y Cyfrif

Rhif Cymdeithas Adeiladu (os yn berthnasol)

10. Cyswllt Eilaidd

Gall hwn fod yn aelod o'r teulu neu'n ffrind ac fe'i defnyddir ar gyfer cyswllt brys ac os bydd unrhyw broblem cysylltu â chi os oes unrhyw ddyled heb ei thalu pan fyddwch chi'n gorffen y cwrs.

Cyfenw/Enw teulu

Enw Cyntaf

Perthynas â'r Myfyriwr

Gwlad

Dod o Hyd i Fy Nghyfeiriad

Llinell Cyfeiriad 1

Llinell Cyfeiriad 2

Tref/Dinas

Cod Post

Cyfeiriad E-bost

Cyfeiriad E-bost Arall:

Rhif ffôn llinell dir:

Rhif Ffôn Symudol